

Beth ydym ni'n ei wneud?

- Rydym ni yma i wrando, i weddio gyda chi, i drafod materion bywyd a ffydd gyda chi. Mae rhai ohonom yn cynnig arweiniad ysbrydol neu fentora.
- Os oes gennych gwestiynau am faterion yn ymwneud â ffydd, fe wnawn ein gorau i'ch helpu i ganfod ateb iddynt.
- Os ydych yn mynd trwy gyfnod anodd, rydym yno os oes arnoch angen rhywun i fod yn gefn i chi.
- Rydym yno i helpu a chynghori'r Brifysgol ar faterion yn ymwneud â ffydd.
- Rydym yn trefnu (neu helpu i drefnu) nifer o ddigwyddiadau yng nghalendr y brifysgol.
- Mae aelodau'r tîm hefyd yn chwarae rhan flaenllaw mewn datblygu a chefnogi cymuned ffydd o fewn ein traddodiad ein hunain.
- Rydym yn cydweithio â grwpiau ffydd eraill yn yr ardal leol.
- Rydym ni yma ar gyfer y myfyrwyr a'r staff i gyd p'un a oes ganddynt ffydd ai peidio.

Pethau nad ydym yn eu gwneud!

- Rydym yn anfeirniadol yn ein ffordd o weithredu - tuag at y sefydliad a thuag at unigolion.
- Nid ydym yn cenhadu - er ein bod yma i hwyluso twf ysbrydol a chyd-deithio â chi ar eich taith ffydd, ni fyddwn yn ceisio eich troi at unrhyw grefydd.

Cysylltwch â ni

Tîm y Gaplaniaeth,
Neuadd Rathbone, Ffordd y Coleg,
Bangor, **LL57 2DF**

01248 382024

caplaniaeth@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/studentservices/faith/index.php.cy

Dewch i gwrdd â'r tîm

Mr Ray Bayliss OP (Caplan Catholig a Chydlynnydd Tîm y Gaplaniaeth)
Dominiciad Lleyg yw Ray a chyn dod i Fangor yn Awst 2016 bu'n gaplan yn Keele am 12 mlynedd. Mae'n byw gyda'i wraig, Allison, yn y Caplandy Catholig.



Catholic Chaplaincy, Ty Acwin, College Road,
LL57 2DB
catholic.chaplain@bangor.ac.uk



Sarah McDonald-Howard (Caplan Methodistiaidd)
Mae Sarah wedi'i lleoli yn Eglwys Fethodistaidd St John's ym Mangor lle mae hi hefyd yn gweithio fel Hwylusydd y Genhadaeth. Mae hi'n ymwneud â gwahanol broiectau yn y gymuned leol ac mae'n rhedeg Messy Church, astudiaethau Beiblaidd a digwyddiadau cymdeithasol yn St. John's. Mae hi'n byw yn Llanfairpwll gyda'i gwraig a'i mab.

Eglwys Fethodistaidd St John's, Stryd Fawr,
Bangor, **LL57 1NR**
chaplainsarah.bangor@gmail.com

Y Parch Dafydd Job (Caplan Efengylaidd Cymraeg)
Daeth Dafydd i Fangor yn 1985 ar ôl astudio yma yn ystod y 1970au. Mae'n weinidog yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg sy'n cyfarfod yng Nghapel y Ffynnon.
LL57 2PR
dafyddmj@gmail.com



Dr Sibani Roy (Caplan Hindwaidd)
Mae Sibani yn Hindw sy'n ymarfer y grefydd ac yn aelod gweithredol o Gyngor Hindwaid Cymru. Mae hefyd yn aelod gweithredol o'r grŵp rhyng-ffydd (Tangnefedd) yn Wrecsam sy'n hyrwyddo gweithgareddau rhyng-ffydd yn y DU. Astudiodd Sibani ym Mhrifysgol Bangor ar ddiwedd y 1990au.
doctorroy@btinternet.com

Y Tra Pharchedig Archimandriad Tad Deiniol (Caplan yr Eglwys Uniongred)



Mae'r Tad Deiniol, offeiriad a mynach yn Eglwys Uniongred y Dwyrain (Patriarchaeth Eciwmenaidd), yn byw ym Mlaenau Ffestiniog ac mae'n Weinyddwr Cenhadaeth Uniongred Cymru. Cafodd ei ordeinio gan y diweddar Archesgob Anthony (Bloom) o Surozh - esgob Uniongred Rwsiaidd.
tad@deiniol.cymru



Y Canon Nathan Jarvis (Caplan Anglicanaidd)
Mae Nathan yn newydd-ddyfodiad i Fangor yn 2018. Mae Nathan wedi'i leoli yn y Gadeirlan ac yn y Brifysgol, ac mae'n byw yn y ddinas.
anglicanchaplain@esgobaethbangor.net

George Benjamin (Caplan Cynulladau Duw)
Cynfyfyrwyr Prifysgol Bangor 2010.
gbenjamin3@yahoo.com



Yr Athro Nathan Abrams (Cynghorwr Iddewig)
Daw Nathan o Lundain yn wreiddiol ac mae wedi bod yn darlithio ym Mangor ar astudiaethau ffilm am 11 mlynedd. Helpodd i sefydlu Rhwydwaith Iddewig Gogledd Cymru. Mae'n byw ym Mangor.
n.abrams@bangor.ac.uk

Y Parchedig Freddy Farias-Palacios (Caplan y Bedyddwyr)
Un o Ecwador yw Freddy'n wreiddiol a bu'n gwasanaethu yn Llynges Ecwador am 18 mlynedd. Yn 2005 ymunodd Freddy â Choleg Spurgeon i fynd yn weinidog achrededig gyda'r Bedyddwyr. Bu'n weinidog ar eglwys y Bedyddwyr Eastern Avenue, Essex am 12 mlynedd. Mae'n weinidog ar Eglwys Bedyddwyr Penrallt, Bangor ers Ebrill 2017.
minister@penrallt.org

